# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Remote - Digital**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021

Amser: Times Not Specified

# IRB(08-21)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)<br>Y Gwir Anrhydeddus Syr David Hanson<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts<br>Hugh Widdis |
| Swyddogion: | |
| Ysgrifenyddiaeth: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |
| Tystion: | |

## 1 Ystyriaeth gychwynnol o'r Cytundeb Cydweithio a'i oblygiadau

1.1 Ystyriodd y Bwrdd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, fel y'i cyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2021.

1.2 Nododd y Bwrdd y datganiad a wnaed gan y Llywydd a'r farn gyfreithiol ar y cyd a fynegwyd gan yr Arglwydd Pannick QC a Marlena Valles – barn a gyhoeddwyd gan y Llywydd ar 7 Rhagfyr 2021.

1.3 Nododd y Bwrdd, at ddibenion y Penderfyniad, nad yw Plaid Cymru yn cael ei hystyried yn blaid sydd â chynrychiolaeth yn y Llywodraeth, ac felly nid oes angen

gwneud unrhyw newidiadau ar unwaith o ran arweinydd Plaid Cymru a’r cymorth sydd ar gael i'r blaid drwy'r Penderfyniad.

1.4 Fodd bynnag, nododd y Bwrdd y pwyntiau a ganlyn:

- mae'r Cytundeb Cydweithio yn drefniant gwleidyddol newydd i'r Senedd; ac
- mae'r Bwrdd yn parhau i feddu ar yr hawl i gynnig diwygiadau i'r Penderfyniad (yn amodol ar broses ymgynghori) i newid lwfansau os bydd angen gwneud hynny yn sgil y dystiolaeth.

1.5 Cytunodd y Bwrdd y bydd angen rhagor o amser a gwybodaeth arno cyn y bydd yn gallu dod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y Cytundeb Cydweithio ar y darpariaethau yn y Penderfyniad.

1.6 Ailadroddodd y Bwrdd ei fwriad i adolygu’r lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol yn ystod cyfnod y Senedd hon, a nododd y bydd ei drafodaethau ar oblygiadau'r Cytundeb Cydweithio yn helpu i lywio'r gwaith hwnnw.

1.7 Ymrwymodd y Bwrdd i ymgysylltu â phleidiau’r Senedd i lywio ei farn, ac i ysgrifennu at Brif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â’r trefniadau sy’n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y Cytundeb Cydweithio.

**Camau i’w cymryd:** Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud y canlynol:

- rhaglennu amser i ystyried rhagor ar y Cytundeb Cydweithio yn y flwyddyn newydd, gan gynnwys ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol y Senedd;
- paratoi llythyr at Brif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth o ran y trefniadau sy’n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y Cytundeb Cydweithio.